# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Cofnodion (EL(3) 18-09)

**Dyddiad: Dydd Mercher 23 Medi 2009**
**Amser: 9.30 - 11.25 am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Gareth Jones (Cadeirydd), Aberconwy
Christine Chapman, Cwm Cynon
Jeff Cuthbert, Caerffili
Paul Davies, Preseli Sir Benfro
Nerys Evans, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Huw Lewis, Merthyr Tudful a Rhymni
David Melding, Canol De Cymru
Sandy Mewies, Delyn
Jenny Randerson, Canol Caerdydd

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Siân Phipps, Clerc
Daniel Collier, Dirprwy Glerc

### Arbenigwr Pwyllgor

Anne Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eraill yn bresennol

Dr Kate Saunders, Cyfarwyddwr Addysg a Pholisi, Cymdeithas Dyslecsia Prydain;
Michael Davies, Prosiect Dyslecsia Cymru
Jane Hutt AC, Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; Mair Watkins, Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau;
Yr Athro Amanda Kirby, Cadeirydd Meddygol Canolfan Dyscovery sydd â Chadair mewn anhwylderau datblygu mewn addysg

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

### 2: Ymchwiliad dilynol i'r cymorth i bobl â dyslecsia yng Nghymru
### Papurau: EL(3) 18-09 - Papur 1; EL(3) 18-09 - Papur 2; EL(3) 18-09 - Papur 3

#### Cymdeithas Dyslecsia Prydain a Phrosiect Dyslecsia Cymru

2.1 Croesawodd y Pwyllgor Dr Kate Saunders, Cyfarwyddwr Addysg a Pholisi, Cymdeithas Dyslecsia Prydain; a Michael Davies, Prosiect Dyslecsia Cymru.

2.2 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tystion.

#### Llywodraeth Cynulliad Cymru

2.3 Croesawodd y Pwyllgor Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; Mair Watkins, Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; a'r Athro Amanda Kirby, Cadeirydd Meddygol Canolfan Dyscovery sydd â Chadair mewn anhwylderau datblygu mewn addysg   2.4 Bu'r Pwyllgor yn holi'r Gweinidog.

#### Papur i'w nodi

### Cofnodion y cyfarfod blaenorol
### Papur: EL(3) 17-09 - Cofnodion

Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 9 Gorffennaf.

#### Sesiwn breifat

Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi).

## 3. Ymchwiliad Cwmpasu - yr agenda weddnewid ar gyfer addysg ôl-16

3.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod cwmpas ei ymchwiliad i'r agenda weddnewid ar gyfer addysg ôl-16.

## 4: Cwmpas ymchwiliadau'r dyfodol

4.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod cwmpas ymchwiliadau'r dyfodol ar gyfer tymor yr hydref a chytunodd ar gylch gorchwyl.

## 5: Adroddiad drafft y Pwyllgor ar gyfraniad economaidd addysg uwch

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft ar gyfraniad economaidd addysg uwch a fyddai'n cael ei lansio ar 7 Hydref ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd. Gofynnodd yr Aelodau am i'r adroddiad gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Medi 2009**